

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau'r Cynhor a gynhaliwyd Nos Fercher, 16 Hydref 2019 yn Canolfan y Fron

Minutes of the Cemeteries & Assets Committee held Wednesday, 16 October 2019 at Canolfan y Fron

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones; Robert Jones a David Roberts Rheolwr y Cyngor / Council Manager.

1 Ethol Cadeirydd – Elect a Chairman

Etholwyd Cyng. Robert Jones i'r gadair am y flwyddyn i ddod. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Aeth ymlaen at y rhaglen yn syth.

Cllr. Robert Jones was elected Chairman for the year ahead. He welcomed all that was present and proceeded stright to the evenings business

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Helen Hughes; Cyng. Alan Patterson; Cyng. Dyfed Williams

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.

No decleration of personal o'r prejudicial interest was made by those present

4 Mynwentydd – Materion Yn Codi / Cemeteries - Matters Arising

Adroddwyd gan y Rheolwr fod cwynion wedi ei dderbyn ynglŷn â chyflwr fynwent Brynrodyn. Cwyn fod y biniau yn orlawn, chwyn ar y llwybrau a gwair yn uchel.

Rheolwr wedi trafod y mater gyda'r ymgymwrwr cynnal tiroedd y Cyngor.

Mae'r ymgymwrwr yn cadarnhau ei fod wedi torri'r gwair yn unol â'r amserlen ond fod yr amserlen yn amodol ar y tywydd.

Mae chwynladdwr wedi ei chwistrellu ar y llwybrau yn y Gwanwyn ac eto ar ddiwedd Medi. Wedi dweud hynny roedd y Rheolwr o'r farn fod cyflwr y fynwent wedi dirywio. Mae'n debyg and does fawr o ddyfnder i'r gwastraff llechi sydd ar y llwybrau sydd hen darmac., ac o ganlyniad mae chwyn yn tyfu trwy'r teram mawn manau.

Barn y Rheolwr yw bod angen pris i gyflawni'r gwaith canlynol

- 1) Peiriant i lanhau'r cerbiau a'r tarmac yng Ngharmel a Bryn'rodyn hen a newydd
- 2) Crafu'r chwyn sydd wedi tyfu ar y mynedfeydd a waliau blaen y mynwentydd
- 3) Argymell ffordd newydd o ymdrin â gwastraff yn y mynwentydd

Giât Bryn'rodyn Newydd

Adroddwyd fod clo'r giât y fynedfa newydd wedi torri. Rheolwr wedi trefnu fod ymgwymerwr cynnal arolygiad I adnabod y gwaith sydd ei angen.

CB yn awgrymu dylid ystyried y penderfyniad eto I gadw'r giat ar agor.

Adroddwyd gan y Rheolwr fod pris wedi ei dderbyn gan Cwmni Gwalch ar hyfer y gwaith canlynol

Fynwent Bryn'rodyn

Crafu ymylon y prif lwybr tarmac (y ddau fynwent hen a newydd) ac yna sgubo'r cyfan gyda peiriant sgubo pwrpasol a glanhau o flaen adwy'r fynwent.....£420

Gwaredu'e gwastraff.....£60

Fynwent Carmel

Crafu ymylon y prif lwybr trwy'r fynwent ac yna sgubo'r cyfan gyda pheiriant sgubo pwrpasol. Glanhau o dan y fainc ym mhen pella'r fynwent. Gweithredu ar arwynebeddau called fel tarmac yn unig.....£198

Gwaredu y gwastarff£4 yn Bryn'rodyn a torri

'Roedd Ifan Williams wedi rhoi amcangyfrif (ar lafar) o £800 ar gyfer y gwaith o grafu holl chwyn o'r llwybrau llechi yn Bryn'rodyn a'i gwaredu.

AWJ – gwaith ei angen i glirio coed jacan, coed drain a coed eiddew yn beddau yn Bryn'rodyn ac ar y waliau.

Aelodau o'r farn fod angen y gwaith uchod yn Brynrodyn a Carmel yn flaenoriaeth.

Dosbarthwyd papur gan y Rheolwr yn datgan fod yna swm o £2,234 ar gyfer gwaith cynnal a chadw mynwentydd a caeau chwraea heb ymrwymiad.

Trafodwyd gwastraff yn y fynwentydd. Rheolwr o'r farn fod angen ystyried polisi gwastraff o'r newydd gan fod ymwelwyr yn rhoi plastigion a gwastraff arall heb fod yn wastraff gwyrdd yn y biniau. Yn Llandwrog dywed yr ymgwymerwr fod pobol yn rhoi gwastraff baw cwn a photeli alcohol yn y biniau.

Barn yr aelodau oedd i gynnal cyfarfod o'r pwyllgor yn y mynwentydd yn ystod mis Ionawr i gynnal arolwg ar y llwybrau ac ystyried y sefyllfa gwastraff.

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) *Fod y Cyngor yn cytuno i dderbyn pris Gwalch ar gyfer y gwaith yn mynwentydd Bryn'rodyn a Carmel***
- ii) *Fod y Cyngor cytuno i'r gwaith yn Bryn'rodyn i grafu y chwyn ar y llwybrau llechi a clirio y coed o'r beddau***
- iii) *Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor hwn i adolygu trefniadau gwagio y biniau ac adrodd yn ol yn Ionawr 2020.***

Recommendation to Council -

- i) That the Council agrees to accept the quote from Gwalch the works at Bryn'rodyn and Carmel***
- ii) That the Council agrees to work at Bryn'rodyn to scrape the weeds on the slate tracks and clear the trees from the graves***
- iii) That the Council requests this Committee to review the emptying of the bins and report back in January 2020***

5 Profion Diogelwch Cerrig Beddi – Headstones Safety Checks

Adroddwyd gan y Clerc-
Fod y Cyngor wedi penderfynu cynnal profion o'r cerrig beddi fel a ganlyn-

Llandwrog yn 2018
Bryn'rodyn yn 2019
Carmel yn 2020

Cadarnhau fod yna swm o £1,000 yn y gyllideb eleni i gyflawni'r gwaith-

Hanes y Profion -

2005 - Profion Llawn o'r tair mynwent
2009 - Profion Llawn o'r tair mynwent
2010 - Profion o gerrig newydd ers 205
2013 - Profion Llawn - Llandwrog
2014 - Profion Llawn – Bryn'rodyn
2015- Profion Llawn – Carmel
2018 – Profion Llawn - Llandwrog

Cytunodd yr aelodau i gynnal y profion yn ystod mis Ionawr 2020 ac i'r Rheolwr i drefnu hysbysebion yn y wasg leol yn unol â'r trefniadau blaenorol.

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) **Fod y Cyngor yn cytuno i gynnal profion o gerrig beddi fynwent Bryn'rodyn yn Ionawr 2020 ac i hysbysebu yn y drefn arferol***
- ii) **Fod y Cyngor yn cynnwys arolygiad o'r gwaith coed sydd wedi ei osod ar gerrig beddi a oedd yn rhydd ym mhroffion blaenorol***

Recommendation to the Council –

- i) **For the Council to agree to undertake the inspection in January 2020 and to issue public notices in the usual manner***
- ii) **For the Council to include inspection of the wooden stakes that were fixed in previous examinations on loose headstones***

6 Blaenoriaeth Gwariant 2020-21

Dosbarthwyd rhestr Blaenoriaeth Gwariant diweddaraf i'r aelodau. 'Roedd y rhestr wedi bod gerbron y Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod 2 Hydref 2019.

Aelodau o'r farn fod angen yr addasiad canlynol-

- 1) Llwybr Arfordirol Dinas Dinlle - Dileu oddi wrth y rhaglen. Troi at y Cyngor i roi penderfyniad ar Cyngor Gwynedd i ddarparu palmant y briffordd. Mae'r Maes Awyr wedi ei ehangu yn y blynyddoedd diweddar ac mae yna gynnydd sylweddol yn y cerbydau trwm sydd yn ei ddefnyddio. Y lon bellach yn beryglus i gerddwyr
- 2) Mainc Bryn'rodyn – dileu – mainc wedi ei brynu yn 2018-19

Ychwanegu –

Mynwentydd - adfer llwybrau'r mynwentydd. Blaenoriaeth categori 1.

- Angen llechi man i greu dyfnder ar y llwybrau. Clustnodi £2,000 yng nghyllideb 2020-21 i gychwyn yn Bryn'rodyn.
- Gwaith ei angen ar lwybr y fynwent newydd.
- Angen torri coed sydd yn gollwng dail ar ochr ddeheuol yn fynwent Bryn'rodyn
- Clirio pridd fynwent Llandwrog a Carmel

Llochesi Bws - lloches Dinas Dinlle yn flaenoriaeth categori 1. RJ yn gwneud y sylw fod nifer o bobol yn defnyddio bws o Dinas Dinlle yn ddyddiol ac nad oes unman i deithwyr gysgodi o'r gwynt a'r

glaw. Clustnodi o leiaf £5,000 ar gyfer 2020-21 at gostau dylunio gosod slab a cerbiau a cheisio adnabod ffynhonnell grantiau i brynu'r lloches neu ei ariannu o gyllideb 2021-22

Argymhellion i'r Cyngor –

- i) **Fod y Cyngor yn derbyn fod gwaith adfer llwybrau'r mynwentydd yn flaenoriaeth categori 1**
- ii) **Fod y Cyngor yn derbyn fod lloches bws Dinas Dinlle yn flaenoriaeth categori 1 yn 2020-21 ond yn debygol o fod yn gynllun fydd angen ei ariannu dros ddwy flwyddyn ariannol**
- iii) **Fod y Cyngor yn nodi fod y Pwyllgor hwn yn cytuno gydag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid mai datblygu gwefan y Cyngor a lloches bws Carmel yw'r flaenoriaeth eleni**

Recommendations to the Council -

- i) **That the Council accepts that the cemetery path restoration work is a category 1 priority**
- ii) **That the Council accepts that Dinas Dinlle bus shelter is a category 1 priority in 2020-21 but is likely to be a scheme that will need to be funded over two financial years**
- iii) **That the Council notes that this Committee agrees with the Finance Committee's recommendation that the development of the Council's website and the Carmel bus shelter is the priority this year**

Lloches Bws Carmel.

Adroddwyd fod y Pwyllgor Cyllid wedi clustnodi £3800 ar gyfer ail-leoli'r lloches yng Ngardd y Coleg. Cafwyd mynediad i'r cyfrifiadur yng Nghanolfan y Fron i weld y lleoliad y lloches ar "Google Earth". Cafwyd awgrym gan CB i gadw'r lloches yn ei safle presennol ond ei droi i wynebu'r pentref a chreu mynediad yn y wal a llwybr newydd at y lloches. Gellir rhoi ffens tu ôl i'r lloches i gadw defaid i ffwrdd o'r maes parcio.

Byddai cost dylunio'r gwaith yma fod sylweddol llai na'r pris a dderbyniwyd yn 2018 - rhoddwyd amcangyfrif o £1,000. Byddai hynny yn gadel £2800 ar gyfer y gwaith.

Byddai angen caniatâd Pwyllgor Pentref Carmel i gyflawni'r gwaith.

Gweithredu –

Cytunwyd ar y drefn a canlynol

- 1) Rheolwr i drefnu cyfarfod i'w gynnal ar y safle gydag aelodau o Bwyllgor Pentref Carmel ac aelodau'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau.
- 2) Yn amodol ar dderbyn caniatâd y Pwyllgor Pentref fod y Pwyllgor Mynwentydd â'n sefydlu briff
- 3) Fod y Cyngor yn gofyn i Bensaer ddylunio'r gwaith yn unol â'r briff
- 4) Amseru'r gwaith i gael y tendrau allan erbyn 31 Mawrth 2020 neu ynghynt

Argymhellion i'r Cyngor - Fod y Cyngor yn derbyn y drefn uchodl ar gyfer ail-leoli lloches bws Gardd y Coleg.

Recommendations to Council - That the Council accepts the above procedure for the relocation of the College Garden bus shelter.

7 Llwybrau Cyhoeddus – Public Footpaths

Rheolwr - yn awyddus fod pob aelod yn ymwybodol fod gwefan Cyngor Gwynedd yn dangos holl lwybrau tramwyo (sydd ar y Definitive Map) ar ei gwefan
<https://www.gwynedd.llyw.cymru/map/default.htm?>

Llwybr 66

RJ – anodd ei dramwyo oherwydd mwd.

Argymhellion i'r Cyngor –

- i) **Fod y Cyngor yn cysylltu gyda Swyddog Tramwyo Cyngor Gwyedd i gynnal archwiliad o'r llwybr**
- ii) **Fod y Cyngor yn annog i pob aelod fod yn ymwybodol o 'r map sydd ar gwefan Cyngor Gwynedd i adnabod yr holl lwybrau oddi few neu wardiau**

Recommendations to the Council -

- i) **That the Council liaises with the Public Right of Way Officer in Gwynedd Council to undertake an audit of the path**
- ii) **That the Council encourages all members to be aware of the map on Gwynedd Council's website to identify all paths within their wards**

8 Ffioedd Claddu – Burial Fees

Dosbarthwyd taflen gan y Rheolwr o'r ffioedd cyfredol gan ychwanegu 1.5% (CPI) ar gyfer 2020-21 yn unol â'r cynnydd yn y gwariant.

Sylwadau Aelodau –

AWJ - gan fod ffioedd cyfredol y Cyngor yn cynnwys gosod carreg fedd o'r farn fod angen i'r Cyngor gynyddu'r ffi Prydles Hawl Cyfyngedig i adlewyrchu hyn. Yn argymhell cynyddu ffioedd canlynol

- Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig o £181 i £200 tu fewn i'r gymuned ac o £543 i £600 tu allan i'r gymuned – cynnydd o 10.5%
- Ffi Prydles Hawl Claddu Lluch Cyfyngedig o £144 i £160 tu fewn i'r gymuned ac o £432 i £480 tu allan i'r gymuned – cynnydd o 11.1%
- Gweddill y ffioedd - cynyddu 1.5% yn unig

Argymhellion i'r Cyngor - fod y Cyngor yn penderfynu mabwysiadu'r ffioedd fel y nodwyd ar gyfer 2020-21

Recommendations to Council - that the Council resolves to adopt the fees as set out for 2020-21

Tu Fewn i'r Gymuned						cynydd £	cynydd %
		Cynnydd 1.5%	Rowndi o	Addasiad	Argymhellad		
Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig	£178	180.67	£181	£19	£200	£22	12.36%
Ffi Claddu	£142	144.13	£144	£0	£144	£2	1.41%
Ffi Prydles Claddu Lluch	£142	144.13	£144	£16	£160	£18	12.68%
Ffi Hawl Claddu Lluch	£142	144.13	£144	£0	£144	£2	1.41%
Plentyn Marwanedig	dim				£0		
Ffi Ymchwil	£46	46.69	£47	£0	£47	£1	2.17%

Tu Allan i'r			

Gymuned							
	Ffi Presen nol 2018-19			Addasiad	Argymhellid	Cynnydd £	Cynnydd %
Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig	£534	x3 tu fewn		£57	£600	£66	£0
Ffi Claddu	£426	x3 tu fewn		£0	£432	£6	£0
Ffi Prydles Claddu Llŵch	£426	x3 tu fewn		£48	£480	£54	£0
Ffi Hawl Claddu Llŵch	£142	x1 tu fewn		£0	£144	£2	£0
Plentyn Marwanedig	dim			dim	dim	dim	dim
Ffi Ymchwil	£46	£47		£46	£47	£0	£46

Daeth y cyfarfod i ben am 9:05 yr hwyr / Meeting closed at 9.05pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Dyddiad -